

Y Grŵp Trawsbleidiol Rhithwir ar Hosbisau a Gofal Lliniarol

11.30-12.30 25 Mehefin 2020,

Cofnodion

-

Yn bresennol

• Mark Isherwood (Cadeirydd) AS	• John Griffiths AS
• Dai Lloyd AS	• Rhun ap Iorwerth AS

• Liz Andrews, Hosbis y Ddinas	• Deborah Ho, Tŷ Hafan
• Grant Usmar, Hosbis y Cymoedd	• Rob Jones, Tŷ Hafan
• Andy Goldsmith, Ty Gobaith	• Steve Parry, Hosbis Tŷ'r Eos
• Luke Conlon, Cymunedau Caredig Sir Benfro	• Thomas Davies, Macmillan Cymru
• Trystan Pritchard, Hosbis Dewi Sant	• Catrin Edwards, Hospice UK (Ysgrifennydd)
• Iain Mitchell, Hosbis Sant Cyndeyrn	• Emma Saysell, Gofal Hosbis Dewi Sant
• Ann Williams, Bracken Trust	• Rhys Jackson, swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn
• Heather Ferguson, Age Cymru	• Jake Smith, Marie Curie Cymru
• Jonathan Ellis, Hospice UK	• Steve Parry, Hosbis Tŷ'r Eos
• Andrew Wilson-Mouasher, Marie Curie	• Melanie Minty, Fforwm Gofal Cymru
• Dominic Carter, Hospice UK	• Rini Jones, Hospice UK
• Elin Llyr, Deryn	• Jonathan Pearce, Hosbis y Cymoedd
• Laura Hugman, Hosbis yn y Cartref Paul Sartori	• Sue Williams, Macmillan Cymru

Croeso

- Croesawodd y Cadeirydd Mark Isherwood (MI) bawb i gyfarfod rhithwir cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol, a oedd yn ddiweddariad

Hospice UK, Hospice House, 34 - 44 Britannia Street, Llundain WC1X 9JG

Cwmni Cyfyngedig trwy Warant, a Gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif 2751519,

Elusen a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif 1014851 ac yn yr Alban Rhif SC041112. TAW Rhif 731 304476, swyddfa gofrestredig fel y nodir uchod.

gan y sector yn ystod pandemig COVID-19 a'r adferiad ohono. Ar hyn o bryd mae saib o ran gwaith trylwyr y Grŵp Trawsbleidiol o ran 'Cymru Garedig'.

•
Nododd MI ein bod yn ymgynnull yn ystod Wythnos Hosbis Plant, a diolchodd i'r cyfeillion sy'n gweithio yn y maes hwnnw.

•
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, ar 11 Mawrth 2020, gan Grant Usmar, ac eiliwyd hyn gan Andy Goldsmith (AG).

Cyfeiriodd MI at bapurau'r cyfarfod, a oedd yn cynnwys llythyr gan y Cadeirydd at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, a oedd yn eiriol am gyllid priodol ar gyfer y sector hosbis yn ystod Covid-19. Gofynnodd MI i Catrin Edwards (CE) gadarnhau na chafwyd ateb i'r llythyr hwnnw hyd yma.

Cyflwyniad: Andy Goldsmith, Tŷ Gobaith

Gofal Lliniarol Pediatreg yn ystod yr argyfwng Covid ac ar gyfer y 'Normal Newydd'

- Gweler y sleidiau Power Point yn yr atodiad.
- Mae Tŷ Gobaith a Thŷ Hafan wedi ymateb ar y cyd i'r pandemig Covid-19
- Ar anterth y pandemig, parhaodd Tŷ Gobaith i ddarparu gofal diwedd oes i blant yn eu cartrefi eu hunain ac roeddent yn darparu gofal diwedd oes yn yr hosbis hefyd ar adeg y cyfarfod.
- Bu'n rhaid ail-drefnu gofal teulu-ganolog oherwydd rheoliadau cadw pellter cymdeithasol a'r nifer sylweddol o deuluoedd sy'n gwarchod eu hunain rhag y feirws.
- Mae cynnig 'rhith-hosbis' ar gael ac mae'n gweithio'n dda. Mae hyn yn cynnwys rheoli symptomau yn rhithwir.
- Er bod gwasanaethau rhithwir yn gweithio'n dda, rhaid i seibiant wedi'i gynllunio a gofal seibiant byr barhau i fod yn gynig craidd i deuluoedd unwaith y gall hosbisau sicrhau eu bod yn fannau diogel yn ystod ymateb y wlad i Covid-19.
- Nododd Deborah Ho (DH) y cydweithredu a'r cydweithio sylweddol a fu ar draws ffiniau gweithredol yn ystod yr argyfwng. A hithau'n 100 diwrnod ers dechrau'r argyfwng, mae addasiadau i wasanaethau bellach yn cael eu profi o ran straen, gan y gallai teuluoedd gyrraedd pwyntiau argyfwng. Am y rheswm hwn, rhaid i'r gwasanaeth rhithwir weithio ochr yn ochr â'r seibiannau byr wyneb yn wyneb pan fydd yn ddiogel i wneud hynny.

Cyflwyniad: Laura Hugman, Hosbis yn y Cartref Paul Sartori

- Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau'n gyflym i'w cartrefi ar ddiwedd oes
- Cynnydd yn y rhestr achosion yn ystod Covid-19: 16 Mawrth-12 Ebrill 2020, cefnogwyd 12 o bobl (heb fod yn achosion Covid) i gael eu rhyddhau o'r ysbyty i'w cartref ar ddiwedd oes o gymharu â dim ond 4 o bobl yn yr un cyfnod yn 2019.

- Mae rhyddhau cyflym o'r ysbyty i'r cartref wedi'i hwyluso gan swydd Cydlynnydd Ysbyty, a gyflwynwyd ym mis Chwefror.
- Mae'r rhestr achosion fwy yn 2020 yn arwydd o angen nas diwallwyd mewn blynyddoedd blaenorol a bydd yn llywio'r rhestr achosion ddisgwyliedig yn y dyfodol.
- Astudiaeth achos:
 - Roedd teulu eisiau i'w perthynas gael dod adref ar ddiwedd oes, o ysbyty a oedd y tu allan i'w ardal leol.
 - Cydlynodd Paul Sartori y rhyddhau o'r ysbyty, ac roedd dymuniadau'r teulu yn ganolog i'r trefniadau.
 - Anfonwyd offer, gan gynnwys gwely ysbyty, i'r cartref ar yr un diwrnod.
 - Darparwyd seibiant dydd a nos gan Paul Sartori.
 - Darparwyd gofal ychwanegol drwy gydlynw â'r canolbwynt integredig, gan gynnwys cyd-gysylltu â nyrsys ardal.
 - Nid oedd angen i'r gwasanaeth y tu allan i oriau fod yn bresennol.
- Mae'r gwasanaeth Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw wedi parhau. Cysylltwyd yn rhagweithiol â chartrefi gofal i gefnogi gyda Chynllunio Gofal Ymlaen Llaw. O'r 1,000 o breswylwyr cartrefi gofal yn Sir Benfro, mae gan draean bellach Gynllun o'r fath.
- Mae'r arweinydd hyfforddi wedi bod yn gweithio gyda Meddygon Iau yn ystod y pandemig i ymarfer a datblygu eu sgiliau o ran torri newyddion drwg.
-

Cyflwyniad: Emma Saysell, Gofal Hosbis Dewi Sant

- Addasiadau i'r gwasanaeth a gwersi a ddysgwyd
- Mae Gofal Hosbis Dewi Sant yn gwasanaethu poblogaeth o 600,000. Ym mis Ebrill 2020, roedd 1,250 o bobl ar y rhestr achosion, gan gynnwys 200 o atgyfeiriadau newydd.
- Roedd model asesu rhithwir ar waith, ond gwnaed 700 o asesiadau wyneb yn wyneb hefyd ar anterth y pandemig.
- Symudwyd pob tîm clinigol allan o'r swyddfa i leihau trosglwyddiad y feirws.
- Bu 183 o farwolaethau yn ystod mis Ebrill, a sicrhawyd eu Man Gofal a Ffefrir a'r Man a Ffefrir ar gyfer y Farwolaeth ar gyfer 160 o'r rhain. O'r rhain, roedd 30 wedi cael prawf Covid-19 cadarnhaol.
- Ym mis Mai gwelwyd cynnydd o 25 y cant yn y galw am wasanaethau Hosbis yn y Cartref.
- Heriau:
 - Cafodd rhai staff eu hadleoli i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan oherwydd eu profiad mewn Uned Gofal Dwys.
 - Staff nos yn gwisgo cyfarpar diogelu personol am 9 awr ar eu hyd.
 - Mae Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan wedi bod yn dda am sicrhau bod cyfarpar diogelu personol yn cyrraedd staff hosbisau.
 - Dim ond unwaith y defnyddiwyd cynlluniau wrth gefn i sicrhau model newydd o ddarparu meddyginiaeth EOL os nad oes digon o yrwyr chwistrelli yn ystod anterth o achosion, ond fe wnaethant weithio'n dda.
- Gwersi:

- Gallwn weithio'n wahanol ac yn rhithiol, ond dewis pobl yw gweld rhywun wyneb yn wyneb o hyd.
- Gellir cynnal cyfarfodydd clinigol yn rhithiol
- Mae'r gwasanaeth hosbis yn rhan annatod o system y GIG a gallwn weithio'n dda gyda'n gilydd
- Mae'r staff wedi bod yn rhagorol, ac wedi gweithio'n galed yng nghartrefi pobl ac mewn cartrefi gofal.

Cyflwyniad: Jonathan Pearce, Hosbis y Cymoedd

Gofal mewn profedigaeth: diwallu angen cyfredol ac angen yn y dyfodol

- Mae Hosbis y Cymoedd yn defnyddio model sy'n seiliedig ar wytnwch, sy'n cynnwys gofal cyn profedigaeth lle mae hyn yn bosibl. Er y bydd angen cefnogaeth broffesiynol ar rai pobl, bydd y rhan fwyaf o bobl yn ymdopi â chefnogaeth anffurfiol.
- Yn ystod Covid-19 maent wedi cynnig cefnogaeth ffôn a chwmsela profedigaeth rhithwir, ond ni fu llawer o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth cwnsela rhithwir. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen am gefnogaeth wyneb yn wyneb wrth inni edrych tua'r dyfodol.
- Bydd Covid yn cael effaith ar les cymdeithasol, lles emosiynol a lles economaidd.

Mae cyd-destun seico-gymdeithasol marwolaethau yn cael effaith ar y rhai sydd mewn profedigaeth. Mae gennym lai o gysylltiadau cymdeithasol yn ystod y pandemig Covid-19, ac mae hynny'n gwaethygu galar.

- Mae cyd-destun economaidd-gymdeithasol yn effeithio ar alar, sy'n arbennig o berthnasol ym mhoblogaeth Blaenau Gwent. Mae'r tîm gwaith cymdeithasol yn Hosbis y Cymoedd yn gweithio'n dda gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Cyflwyniad: Trystan Pritchard, Hosbis Dewi Sant a Hosbisau Cymru

Cyllid hosbisau - Covid-19

Mae negeseuon cyson gan Lywodraeth Cymru drwy gydol y pandemig bod hosbisau yn wasanaethau craidd a hanfodol. Dyma'r gwasanaeth a'r berthynas y mae hosbisau ei eisiau gyda'r GIG.

Amgylchedd cynllunio economaidd anodd: Dim ond 16% o'r incwm sy'n gyllid statudol. Roedd Covid yn arwain at botensial o golli 90% o'r incwm a gaiff ei godi. Fel sefydliadau elusennol gall hosbisau ddefnyddio rhai o'u cronfeydd wrth gefn ond mae ganddyn nhw gyfrifoldeb i ddal cyfran o'r arian hwnnw er mwyn gwarantu ein cynaliadwyedd.

- O'r gefnogaeth o £6.3 miliwn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, dim ond £2.1 miliwn sydd wedi'i ryddhau. Fel rhan o'r gefnogaeth ariannol hon, mae hosbisau wedi profi lefelau monitro digynsail.
- Gofyn i Lywodraeth Cymru am y wybodaeth ddiweddaraf am amserlen y cyllid a sicrwydd y caiff y £6.3 miliwn ei ddosbarthu. Dylai setliad ganiatáu ar gyfer natur dymhorol y modd y caiff incwm ei godi ac ni ddylai gosbi'r hosbisau hynny sydd wedi codi arian mewn ffordd arloesol.
- Rhaid bwrw ymlaen â sgwrs ar gyllid tymor hwy y sector hosbisau hefyd.
-

Cyfleoedd a phwyntiau gweithredu

Nododd MI mai'r cyllid canlyniadol Barnett tybiannol sy'n dod i Lywodraeth Cymru o ymrwymiad Llywodraeth y DU i gefnogi hosbisau yn Lloegr, sydd hyd at £200 miliwn yn Chwarter 1 2020, yw £12 miliwn. Mae'r £6.3 miliwn a glustnodwyd ar gyfer hosbisau yng Nghymru yn sylweddol is na'r ffigur hwn.

- Mae Hospice UK a Hosbisau Cymru yn ysgrifennu ar y cyd at y Gweinidog i ofyn am gael rhyddhau'r cyllid a nodwyd ar gyfer cefnogi hosbisau.

Nododd Catrin Edwards (CE) y bydd angen diweddarau Fframwaith Profedigaeth disgwylid Llywodraeth Cymru yng ngoleuni'r cynnydd a ragwelir yn y galw am ofal profedigaeth yn dilyn Covid-19 a gallai hwn fod yn llwybr i'r Grŵp Trawsbleidiol ei ddilyn yng ngoleuni gwaith Cymru Garedig.

- CE i gyd-gysylltu ag ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Angladdau a Phrofedigaeth ynghylch gwaith ar y cyd.
- CE a MI i weithio gyda'i gilydd i gyflwyno cwestiynau ysgrifenedig i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Diolchodd Melanie Minty (MM) ddiolch ar ran y sector cartrefi gofal i'r hosbisau hynny sydd wedi eu cefnogi yn ystod yr argyfwng. Nododd MM rôl hosbisau wrth gefnogi cyflwyno Cynllunio Gofal Ymlaen Llaw mewn cartrefi gofal yn benodol.

Gofynnodd Dominic Carter (DC) i gydweithwyr beth sydd wedi bod ei angen ar staff cymorth i gyflawni eu gwaith yn rhithwir.

Nododd Laura Hugman (LH) fod y tîm yn Paul Sartori wedi bod yn gydnerth ond mae rhai wedi bod angen cefnogaeth gan gwrselwyr. Mae cwrselwyr profedigaeth wedi gwneud yr ymdrech ychwanegol sydd ei hangen mewn ymgynghoriadau heb yr arwyddion gweledol a chorfforol a geir mewn ymgynghoriad wyneb yn wyneb. Mae hyn wedi arwain at fod goruchwyliaeth glinigol ychwanegol yn angenrheidiol ar brydiau.

Gofynnodd CE a oes unrhyw fwriad i Lywodraeth Cymru (neu gorff arall) werthuso'r effaith o ran ymgynghoriadau rhithwir, p'un ai fod hynny ar gyfer gofal lliniarol neu'n ehangach ar draws y system iechyd a gofal.

Nododd Dai Lloyd AS (DL) fod tystiolaeth a ddaeth i law ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd i'r ymateb i Covid-19 yn dangos barn bod ymgynghoriadau rhithwir yn mynd yn dda yn gyffredinol, er bod angen a gwerth i wasanaethau wyneb yn wyneb o hyd. Nododd DL y derbyniwyd tystiolaeth i'r Ymchwiliad gan y sector hosbis.

- Dylai'r Grŵp Trawsbleidiol aros am y gyfres o adroddiadau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar yr ymateb i Covid-19 a bwrw ymlaen ag unrhyw feysydd gwaith perthnasol.

Holodd MI pa rôl y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol ei chael wrth sicrhau bod cyllid cynaliadwy, priodol yn cael ei sicrhau ar gyfer hosbisau yn ystod y flwyddyn hon.

Nododd CE fod llythyr gan Hospice UK a Hosbisau Cymru i'w anfon at y Gweinidog yn fuan iawn.

Nododd Trystan Pritchard (TP) y dylai'r drafodaeth rhwng hosbisau a Llywodraeth Cymru aros o fewn sianeli ffurfiol am y tro. Byddai galw am gefnogaeth y Grŵp Trawsbleidiol pe bai oedi pellach.

- CE a TP i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Grŵp Trawsbleidiol am ddatblygiadau.
- Dylai unrhyw hosbis sy'n dymuno rhannu pryderon deimlo bod croeso iddynt gysylltu â MI.

Amlygodd Luke Conlon (LC) y rôl mae'r mudiad Cymunedau Caredig Sir Benfro wedi gweld sydd gan gysylltiadau rhithwir wrth ddod â grwpiau dynion ynghyd mewn lleoedd siarad diogel. Mae hon yn wers i'w hystyried o ran prosiectau yn y dyfodol.

Unrhyw fater arall

- Dyddiad y cyfarfod nesaf: 23 Medi – manylion i'w cadarnhau

Atodiad

Cyflwyniad: Andy Goldsmith, Tŷ Gobaith

Gofal Lliniarol Pediatreg yn ystod yr argyfwng Covid ac ar gyfer y 'Normal Newydd'



Paediatric Palliative Care during the Covid Crisis and into the 'New Normal'

Presentation to the CPG on Palliative and End of Life Care

Early March	April Ongoing in June	June	July onwards	Early 2021
Resolve	Resilience	Return	Reimagination	Reform
Address the immediate challenges that COVID-19 represents to whole workforce, patients, carers, donors, technology and NHS and Social Care partners	Address cash flow management challenges and resilience issues during virus-related shut down of shops and fundraising events.	Create detailed plans to return business to scale in the new "Business as Unusual" as COVID-19 situation evolves and knock-on effects become clearer	Reimagine the next normal: what care and income generation looks like and implications for how as a charity we should reinvent ourselves	Be clear about how regulatory and competitive environments may shift The needs of children and family may change New fundraising activity

From McKinsey and Company:
Beyond coronavirus: The path to
the next normal



Delivering a resilient service during Covid

- The basic principles of relieving pain and symptoms and caring for the psychosocial needs of children and families through touch and physical presence are often no longer possible during the pandemic.
- Many families advised to shield and families were not keen to leave the safety of their own homes, preferring to cope with existing care packages or on their own.
- Some families continue to decline the offer of hospice support for fear that the hospice staff might inadvertently bring COVID-19 into their homes.
- Challenge of delivering compassionate care including care at death whilst wearing PPE
- Constraints created by social distancing on the normally unrestricted child and family centred care at the hospices.





Service	Converted/New	Focus
Kindness calls - clinical check-in	New focus	Child and family
Bereavement support and counselling	Converted	Bereaved family
Virtual symptom control appointments	Converted	Child
Storytelling	New	Child and sibling
Letter writing	New	Sibling
Virtual Physio	Converted	Child and family
Virtually delivered activities (e.g., crafts, exercise)	Converted	Child and sibling
Government support maximisation	Converted	Family
Remembrance days	Converted	Family

Reimagining the service

- Safe respite in the hospices (both planned and emergency) remains a priority for families:
 - Capacity of hospices whilst maintaining social distancing
 - Enabling interaction between staff and children
 - Family care and stays at the hospices
- Delivering compassionate Covid secure end of life care at place of choice
- Building on the virtual hospice services to deliver efficient, accessible and effective care



•
 Cyflwyniad: Trystan Pritchard, Hosbis Dewi Sant a Hosbisau Cymru
 Cyllid hosbisau - Covid-19

•



Hospice Funding – Covid 19

Trystan Pritchard
Chairman, Hospices Cymru

•





- Consistent WG statements that Hospices are 'core' 'vital' and 'essential' to End of Life Care in Wales
- Strong partnership approach with NHS, Social Services and other providers
- Providing services at end of life that are simply not available elsewhere

•



- Hospices receive as little as 16% statutory funding for services
- Hospices typically deliver £5 of services for every £1 public funds
- Over 22,000 patients and families benefited Wales over last 12 months



Covid-19 Effect

- Loss of up to 90% of income generation
- Shops closures cancelling fundraising events, decrease in donations, impact on reserves an investments
- Sector is fragile due to uncertainty and need to use core reserves
- Some hospice face a cliff edge before the end of 2020



Covid-19 Effect

- Loss of up to 90% of income generation
- Shops closures cancelling fundraising events, decrease in donations, impact on reserves an investments
- Sector is fragile due to uncertainty and need to use core reserves
- Some hospice face a cliff edge before the end of 2020



Welsh Government Support

- £6.3m pledged in April and gratefully acknowledged
- £2.1m distributed in month 1
- No further distribution so far
- Reporting requirements agreed and required scrutiny accepted
- Strict scrutiny at a time when Hospices are dealing with Covid-19 situation hampering ability to plan and deliver services beyond short term
- Delays causing instability and forecasting requirements on future income arbitrary
- Timescale and assurance needed on distribution of remainder of £6.3m



Current normal time funding

- As low as 16% for some inpatient services and around 25% overall
- Welsh hospices generally receive 50% of statutory funding as compared to England and Scotland
- WG has previously stated that Hospices benefit from other NHS contributions but this has dwindled as pressures on services intensified
- No inflationary uplifts for over 10 years
- Equates to £89 per night in some hospices where care homes receive basic £112
- Hospices are a specialist, Consultant-led service
- WG figure for a specialist palliative care bed is £721 per night
- Hospice often admit directly from ITU and acute beds



Told we are part of the NHS family, but feels like a poor relation

•



The ask from Hospices Cymru

- Commitment to distributing the full £6.3m to hospices with a clear timescale
- Make allowances for highly seasonal nature of hospice fundraising and avoid punishing hospices for innovation during the crisis.
- Commit to a realistic and accelerated timescale on reviewing statutory hospice funding to safeguard the sector and protect local specialist services that are not available elsewhere